Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Uwchradd Treffynnon
# Y Strand
# Treffynnon
# Sir y Fflint
# CH8 7AW

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 22/03/2016**

## Cyd-destun

Ysgol gyfun gymysg cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion rhwng 11 ac 18 oed a gynhelir gan awdurdod lleol Sir y Fflint yw Ysgol Uwchradd Treffynnon. Mae 407 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, gan gynnwys 45 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth, o gymharu â 779 o ddisgyblion adeg yr arolygiad diwethaf yn Ionawr 2009, gan gynnwys 102 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth.

Mae'r ysgol yn mynd trwy gyfnod o newid sylweddol ar hyn o bryd. Yn fwyaf arwyddocaol, mae adeilad ysgol newydd, y disgwylir i'r ysgol symud iddo ym Medi 2016, wrthi'n cael ei adeiladu ar hyn o bryd yn agos at safle'r ysgol bresennol.

Mae tua 26% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.4%. Mae tua 33% o fyfyrwyr yn byw yn y 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae bron pob un o'r disgyblion yn siarad Saesneg fel eu mamiaith ac yn dod o gefndir gwyn Prydeinig. Mae ychydig iawn ohonynt yn siarad Cymraeg yn rhugl.

Mae anghenion addysgol arbennig gan ryw 22% o'r disgyblion, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 25.4%. Mae gan 2% o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, sydd ychydig islaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 2.5%.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er Hydref 2015, a bu'n bennaeth dros dro am y ddau dymor cyn y dyddiad hwn. Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth yn cynnwys pennaeth cynorthwyol yn ogystal â phum arweinydd canol sy'n cynorthwyo'r uwch arweinwyr parhaol ar hyn o bryd fel uwch dîm arwain 'estynedig'.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Uwchradd Treffynnon yn 2015-2016 yn golygu mai'r gyllideb yw £4,792 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion uwchradd yn Sir y Fflint yw £4,933 a'r isafswm yw £3,783. Mae Ysgol Uwchradd Treffynnon yn yr ail safle o'r 12 ysgol uwchradd yn Sir y Fflint o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Anfoddhaol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Anfoddhaol** |

## Perfformiad presennol

Er gwaethaf gwelliannau mewn lefelau presenoldeb ac mewn deilliannau yng nghyfnod allweddol 3, bernir bod perfformiad presennol yn anfoddhaol oherwydd:

- mae perfformiad mewn llawer o ddangosyddion allweddol yng nghyfnod allweddol 4 dros y pedair blynedd ddiwethaf wedi bod yn wael o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg, a chyrhaeddiad blaenorol disgyblion
- mewn mwyafrif o wersi, mae disgyblion yn gwneud cynnydd annigonol yn eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth
- mae gan ormod o ddisgyblion wendidau yn eu medrau llythrennedd a rhifedd
- mae cyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol yn uchel iawn
- mae cyfraddau presenoldeb islaw deilliannau wedi'u modelu yn gyson, ac yn cymharu'n wael â chyfraddau presenoldeb ysgolion tebyg
- mae diffygion pwysig mewn addysgu mewn tua hanner y gwersi
- nid yw athrawon yn defnyddio asesu yn ddigon effeithiol i gefnogi dysgu'r disgyblion

## Rhagolygon gwella

Bernir bod rhagolygon gwella'r ysgol yn anfoddhaol oherwydd:

- nid yw uwch arweinwyr ac arweinwyr canol wedi dangos y gallu i sicrhau gwelliannau mewn meysydd pwysig, fel safonau ac ansawdd yr addysgu
- nid yw systemau atebolrwydd a sicrhau ansawdd yn ddigon trylwyr
- ni chaiff trefniadau rheoli perfformiad eu rhoi ar waith yn ddigon cyson i gefnogi gwella'r ysgol
- nid yw uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn arfarnu gwaith yr ysgol yn ddigon trylwyr, ac nid ydynt yn nodi meysydd i'w gwella yn ddigon da
- ni wnaed cynnydd digonol o ran mynd i'r afael â mwyafrif yr argymhellion o'r arolygiad diwethaf
- mae gan yr ysgol ddiffyg sylweddol yn ei chyllideb

## Argymhellion

A1 Gwella safonau yng nghyfnod allweddol 4

A2 Gwella lefelau presenoldeb

A3 Lleihau nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol

A4 Gwella ansawdd a chysondeb yr addysgu a'r asesu

A5 Gwella effeithiolrwydd yr arweinyddiaeth ar bob lefel trwy atebolrwydd mwy trylwyr a threfniadau cryfach ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio gwelliant

A6 Datrys y diffyg yn y gyllideb yn effeithiol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Yn unol â Deddf Addysg 2005, mae PAEM o'r farn fod angen mesurau arbennig mewn perthynas â'r ysgol hon. Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu, sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol bob tymor.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Safonau: Anfoddhaol**

Dros y tair blynedd ddiwethaf, yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad wedi amrywio ym mwyafrif y dangosyddion allweddol. Mae perfformiad mewn llawer o ddangosyddion yn ystod y cyfnod hwn yn gosod yr ysgol yn hanner is yr ysgolion tebyg ar sail bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac yn y chwarter gwaelod mewn tua hanner ohonynt. Mewn llawer o ddangosyddion, mae disgyblion yn gwneud cynnydd annigonol o gyfnodau allweddol blaenorol.

Bu gwelliant mewn perfformiad yn nhrothwy lefel 2, yn cynnwys Saesneg a mathemateg yn 2014, ond gwelwyd dirywiad yn 2015. Mae perfformiad yn y dangosydd hwn dros y pedair blynedd ddiwethaf wedi bod islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion. Mae wedi gosod yr ysgol yn hanner is yr ysgolion tebyg ar sail bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y cyfnod hwn, ac yn y chwarter gwaelod yn 2015. Roedd perfformiad yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg yn cyd-fynd â deilliannau wedi eu modelu yn 2013 a 2014, ond roedd yn llawer is yn 2015.

Bu gwelliant mewn perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio yn 2013 a 2014, ond gwelwyd dirywiad yn 2015. Mae wedi bod islaw deilliannau wedi'u modelu am y pedair blynedd ddiwethaf. Mae perfformiad yn y dangosydd hwn wedi gosod yr ysgol yn yr hanner is o ysgolion tebyg dros y pedair blynedd ddiwethaf, ac yn y chwarter gwaelod mewn tair o'r pedair blynedd hynny. Mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio wedi bod islaw cyfartaledd y teulu mewn tair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2 wedi gwella er 2012, er ei fod wedi bod ymhell islaw cyfartaledd y teulu am y pedair blynedd ddiwethaf. Mae perfformiad yn y dangosydd hwn yn gosod yr ysgol yn y chwarter gwaelod o ysgolion tebyg ar sail bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros y cyfnod hwn. Mae cyfran y disgyblion sy'n ennill pum gradd A* neu A wedi dirywio dros y tair blynedd ddiwethaf, ac mae wedi bod islaw cyfartaledd y teulu yn gyson.

Ym Mlwyddyn 13, dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae pob disgybl wedi cyflawni trothwy lefel 3, ac mae cyfran y disgyblion sy'n cyflawni graddau A* neu A mewn Safon Uwch neu gyfwerth wedi bod uwchlaw cyfartaledd y teulu. Fodd bynnag, dros yr un cyfnod, mae'r sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach a chyfran y disgyblion sy'n ennill tair gradd A*-C wedi bod ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion.

Yng nghyfnod allweddol 3, ar lefel 5 neu'n uwch, bu tuedd ar i fyny yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pynciau craidd.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched wedi lleihau dros y tair blynedd ddiwethaf ym mhob dangosydd. Yn 2015, mewn llawer o ddangosyddion, mae bechgyn a merched yn perfformio'n well na'r cyfartaledd ar gyfer bechgyn a merched yn y teulu o ysgolion tebyg. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched wedi cynyddu dros y tair blynedd

ddiwethaf mewn llawer o ddangosyddion. Yn 2015, mewn tua hanner y dangosyddion, mae'r bwlch hwn gryn dipyn yn ehangach na chyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae perfformiad merched mewn llawer o ddangosyddion dros y tair blynedd ddiwethaf islaw'r cyfartaledd ar gyfer merched yn y teulu o ysgolion tebyg ac yn genedlaethol. Mae perfformiad bechgyn mewn llawer o ddangosyddion dros y tair blynedd ddiwethaf islaw'r cyfartaledd ar gyfer bechgyn yn y teulu o ysgolion tebyg ac yn genedlaethol, ac yn 2015, roedd gryn dipyn yn is na'r cyfartaleddau hyn mewn Saesneg a throthwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg.

Yng nghyfnod allweddol 3, rhwng 2012 a 2014, fe wnaeth perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wella yn y dangosydd pynciau craidd a Saesneg, er iddo ddirywio mewn mathemateg. Yng nghyfnod allweddol 4, yn 2014, bu gwelliant ym mherfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ym mhob dangosydd. Yn 2015, parhaodd y gwelliant hwn mewn mathemateg a gwyddoniaeth, ac yn y dangosyddion hyn, mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi perfformio uwchlaw cyfartaledd y teulu a'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer disgyblion tebyg am y ddwy flynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, dirywiodd perfformiad y grŵp hwn o ddisgyblion yn 2015 yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, y dangosydd pynciau craidd, trothwy lefel 2 a Saesneg. Roedd perfformiad yn y dangosyddion hyn yn 2015 ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion yn y teulu o ysgolion a ledled Cymru.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn parhau â'u haddysg mewn ysgol neu goleg addysg bellach. Nid oes unrhyw ddisgyblion wedi gadael yr ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig yn y saith mlynedd ddiwethaf.

Mae mwyafrif y disgyblion yn dangos parodrwydd i ddysgu, ac maent yn cymryd rhan yn dda yn eu gwersi. Mewn lleiafrif o wersi, mae disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth a'u medrau yn llwyddiannus. Yn y gwersi hyn, mae llawer o ddisgyblion yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ac yn gwrando'n ofalus ar ei gilydd.

Mae lleiafrif o ddisgyblion yn dangos medrau llafar cryf ac yn esbonio eu syniadau'n gywir. Maent yn galw dysgu blaenorol i gof yn dda ac mae ganddynt fedrau effeithiol ar gyfer dysgu'n annibynnol. Gall y disgyblion hyn asesu eu gwaith eu hunain a gwaith disgyblion eraill yn briodol, ac maent yn gosod targedau priodol ar gyfer gwella.

Mewn ychydig iawn o wersi, mae disgyblion yn dangos annibyniaeth a chadernid rhagorol yn eu dull o ddysgu. Maent yn cydweithio ac yn datblygu eu medrau datrys problemau yn dda iawn. Mae hyn yn eu galluogi i roi cynnig ar dasgau heriol yn hyderus a gwneud cynnydd cyflym.

Yn y mwyafrif o wersi, fodd bynnag, nid yw disgyblion yn gwneud cynnydd digonol o ran datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. Yn y gwersi hyn, mae lleiafrif o ddisgyblion yn colli diddordeb yn eu gwaith oherwydd diffyg her mewn addysgu. Yn ychwanegol, nid yw rhai disgyblion yn gwrando'n dda ar eu hathrawon na'u cyfoedion, ac maent yn crwydro oddi wrth y dasg yn rhy hawdd. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn dangos ymgysylltiad cyfyngedig â'u dysgu.

Mae lleiafrif o ddisgyblion yn cyfleu eu syniadau'n glir yn eu gwaith ysgrifenedig. Mae rhai ohonynt yn ysgrifennu'n gydlynus a strwythuredig at ystod o ddibenion a chynulleidfaoedd. Maent yn drafftio ac ailddrafftio eu gwaith i wneud gwelliannau priodol. Fodd bynnag, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud gormod o gamgymeriadau sylfaenol yn eu sillafu, eu hatalnodi a'u gramadeg, ac nid ydynt yn strwythuro eu hysgrifennu'n ddigon da.

Mae gan leiafrif o ddisgyblion fedrau darllen da, ac maent yn dod o hyd i wybodaeth berthnasol wrth gwblhau ymchwil ac ateb cwestiynau. Mae rhai ohonynt yn dangos hyder yn eu medrau darllen lefel uwch. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn datblygu medrau fel dod i gasgliad yn ddigon da.

Mae gan leiafrif o ddisgyblion fedrau rhif cadarn, y maent yn eu defnyddio'n briodol ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth gyfrifo cost deunyddiau mewn dylunio a thechnoleg. Mae gan ychydig iawn ohonynt fedrau mathemategol datblygedig iawn, y maent yn eu defnyddio'n llwyddiannus i gwblhau tasgau heriol. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y disgyblion yn hyderus wrth wneud gwaith rhif sylfaenol, ac yn aml, ni all lleiafrif ohonynt ddewis dulliau priodol i ddatrys problemau rhif. Gall mwyafrif o ddisgyblion lunio graffiau priodol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, mae disgyblion yn creu graffiau llinell sy'n anghywir neu wedi'u llunio'n ddiofal.

Mae tua hanner y disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn ennill cymhwyster lefel 2 mewn Cymraeg. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu geirfa Gymraeg addas. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw eu dealltwriaeth o strwythur brawddeg Gymraeg wedi'i datblygu'n ddigonol. Mewn rhai pynciau heblaw Cymraeg, mae disgyblion yn defnyddio'r iaith yn briodol i holi ychydig o gwestiynau sylfaenol.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac mae llawer ohonynt yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda â bwlio. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth addas o bwysigrwydd ffordd iach o fyw ac ymarfer corff rheolaidd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ystyriol o bobl eraill. Maent yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol ac yn dangos cwrteisi a pharch at staff ac ymwelwyr. Fodd bynnag, prin fu'r gostyngiad yng nghyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol.

Bu gwelliant mewn cyfraddau presenoldeb yn 2015. Fodd bynnag, mae cyfraddau presenoldeb wedi gosod yr ysgol yn y chwarter isaf o ysgolion tebyg ar sail bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim am y pedair blynedd ddiwethaf. Yn ystod y cyfnod hwn, mae cyfraddau presenoldeb wedi bod islaw deilliannau wedi eu modelu yn gyson hefyd. Mae cyfradd presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi bod islaw'r cyfartaledd ar gyfer yr un grŵp o ddisgyblion yn y teulu o ysgolion ac yn genedlaethol am y ddwy flynedd ddiwethaf. Bu gostyngiad yn nifer yr absenoldebau parhaus yn 2015, ond mae'n parhau i fod ymhell uwchlaw cyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

Mae'r cyngor ysgol wedi cyfrannu'n briodol at newidiadau yn yr ysgol, er enghraifft gwelliannau i'r system giwio yn y ffreutur, y system wobrau a'r cynlluniwr gwaith

cartref. Mae disgyblion wedi cael eu cynnwys yn briodol mewn digwyddiadau elusennol, er enghraifft Comic Relief a gweithgareddau i gynorthwyo dioddefwyr daeargryn Nepal. Mae hyn yn helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd yn briodol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

## Profiadau dysgu: Digonol

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm sy'n addas o eang a chytbwys sy'n bodloni gofynion statudol. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r ysgol yn darparu ystod briodol o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol ar gyfer disgyblion. Mae disgyblion yn y chweched dosbarth yn elwa ar ystod addas o lwybrau a gynigir ar y cyd â darparwyr eraill. Mae'r ysgol yn darparu ystod foddhaol o weithgareddau allgyrsiol, fel clybiau, teithiau ac ymweliadau, sy'n cyfoethogi dysgu disgyblion ac yn ehangu eu gorwelion. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau buddiol, cysylltiedig â gwaith ar gyfer disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 ac ysgolion haf ar gyfer disgyblion mwy abl. Mae trefniadau pontio yn sicrhau bod cwricwlwm cyfnod allweddol 3 yn adeiladu'n briodol ar ddysgu blaenorol disgyblion.

Mae'r ysgol yn cefnogi medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn briodol trwy wersi dynodedig ar gyfer holl ddisgyblion cyfnod allweddol 3 ac ymyriadau teilwredig ar gyfer disgyblion â medrau gwannach. Mae'r trefniadau hyn wedi gwella medrau darllen disgyblion, ond nid ydynt yn cael effaith ddigonol ar safonau ysgrifennu a rhifedd eto. Mae llawer o adrannau yn nodi cyfleoedd priodol yn eu cynlluniau gwaith i ddisgyblion ddatblygu eu medrau. Fodd bynnag, yn y mwyafrif o wersi, nid yw athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd ar lefel addas.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion yn briodol yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Mae trefniadau'r ysgol i gryfhau dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant Cymru a chefnogi eu dwyieithrwydd yn datblygu'n briodol.

Mae'r ysgol yn darparu ystod foddhaol o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am gynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang trwy addysg bersonol a chymdeithasol, Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, gwersi pynciol, teithiau a digwyddiadau i godi arian.

## Addysgu: Anfoddhaol

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol briodol ac maent yn gyrru ymlaen yn dda â'r disgyblion yn eu dosbarthiadau. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, mae disgwyliadau isel athrawon yn cyfyngu'n sylweddol ar faint o gynnydd y gall disgyblion ei wneud yn eu gwybodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth.

Mewn lleiafrif o wersi, mae athrawon yn cynllunio'n ofalus i fodloni anghenion a diddordebau disgyblion, a defnyddiant amrywiaeth o adnoddau a gweithgareddau'n dda. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn ymgysylltu'n llwyddiannus â'u dysgu. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn defnyddio holi medrus i ddatblygu ymatebion disgyblion ar lafar yn dda. Mae disgyblion yn y gwersi hyn yn gwneud cynnydd cryf.

Mewn ychydig iawn o wersi, mae'r addysgu'n hynod effeithiol. Yn y gwersi hyn, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel iawn o ddisgyblion, ac maent yn fedrus wrth gynllunio ystod o weithgareddau diddorol a heriol sy'n ymestyn disgyblion yn dda iawn. Mae'r athrawon hyn yn meithrin lefel uchel o annibyniaeth a chadernid ymhlith eu disgyblion, ac mae hyn yn galluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau a'u gwybodaeth yn gyflym.

Fodd bynnag, mewn llawer o wersi, mae disgwyliadau athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn rhy isel. Yn y gwersi hyn, gosodir tasgau dibwys a diymdrech, fel copïo a lliwio i mewn, nad ydynt yn llwyddo i ennyn diddordeb y disgyblion yn eu dysgu. Ni chaiff holi ei ddefnyddio'n effeithiol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion, ac nid yw gweithgareddau ac adnoddau yn gweddu'n dda i alluoedd disgyblion. O ganlyniad, mae rhediad y dysgu'n rhy araf ac mae disgyblion yn gwneud cynnydd cyfyngedig.

Mewn tua hanner y gwersi, nid yw athrawon yn monitro cynnydd disgyblion yn ddigon agos. O ganlyniad, nid yw athrawon yn mynd i'r afael ag unrhyw gamsyniadau yn ddigonol, ac nid ydynt yn herio disgyblion yn ddigonol pan nad ydynt yn ymgysylltu â'u dysgu neu pan nad ydynt yn cwblhau digon o waith. Yn y gwersi hyn, gall disgwyliadau isel athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni olygu eu bod yn rhy hael yn eu canmoliaeth.

Mae bron pob un o'r athrawon yn marcio'n rheolaidd. Yn y mwyafrif o achosion, mae athrawon yn nodi meysydd i'w gwella yn glir yng ngwaith disgyblion. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o'r sylwadau hyn yn esbonio i ddisgyblion yn ddigon clir sut gallant wella. Mae llawer o athrawon yn nodi camgymeriadau mewn sillafu, atalnodi a gramadeg. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif ohonynt yn darparu strategaethau priodol ar gyfer disgyblion i wella cywirdeb eu hysgrifennu. Mewn llawer o achosion, mae athrawon yn rhoi adborth hir ar bob tasg, ac nid ydynt yn ddigon gofalus wrth ddewis darnau priodol o waith i'w farcio'n fanwl.

Mewn tua hanner y gwersi, mae athrawon yn darparu cyfleoedd addas ar gyfer hunanasesu ac asesu cyfoedion. Fodd bynnag, mewn tua hanner yr achosion, nid yw athrawon yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o feini prawf llwyddiant yn ddigon da. O ganlyniad, nid yw'r gweithgareddau hyn yn effeithiol o ran helpu disgyblion i ddeall sut i wella'u gwaith.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno systemau priodol i olrhain cynnydd disgyblion. Mae hyn yn helpu arweinwyr i nodi tanberfformio a chynllunio ymyriadau addas. Mae'r ysgol yn rhoi diweddariadau rheolaidd a defnyddiol i rieni ar gynnydd eu plentyn. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys targedau priodol ar gyfer gwella, ac yn asesu cynnydd disgyblion yn briodol yn erbyn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn briodol trwy gyfnodau tiwtor, gwasanaethau a rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol gytbwys. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Caiff athrawon, staff cymorth ac arweinwyr bugeiliol effaith gadarnhaol ar les disgyblion. Mae gan yr ysgol berthnasoedd gweithio defnyddiol gydag ystod eang o asiantaethau allanol fel yr heddlu, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r rhain yn sicrhau y gall disgyblion gael cymorth proffesiynol perthnasol pan fydd angen.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau addas i ddelio â bwlio ac ymddygiad gwael, ac mae systemau priodol ar waith ar gyfer gwobrwyo a chosbi. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi cael digon o effaith eto ar leihau nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol. Mae strategaethau'r ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb yn dechrau cael effaith gadarnhaol. Fodd bynnag, nid yw strategaethau i gefnogi lles disgyblion sy'n agored i niwed wedi sicrhau gwelliannau digonol yn eu presenoldeb na'u cyrhaeddiad.

Mae'r ysgol yn rhoi arweiniad priodol i ddisgyblion am eu hopsiynau, er enghraifft trwy nosweithiau opsiynau a chyfweliadau gyrfaoedd. Mae hyn yn eu helpu i wneud dewisiadau gwybodus priodol.

Mae'r ysgol yn nodi a chefnogi anghenion dysgu ychwanegol disgyblion yn briodol. Caiff disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol gyfle i fanteisio'n llawn ar y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn cynnal adolygiadau addas o gynnydd y disgyblion hyn. Fodd bynnag, nid yw llawer o athrawon yn defnyddio'r strategaethau a nodwyd mewn cynlluniau addysg unigol yn ddigon da i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn gwersi prif ffrwd.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion, ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae gan yr ysgol ethos cynhwysol a chefnogol. Mae'n hyrwyddo cydraddoldeb ac yn herio stereoteipio yn dda ym mhob agwedd ar ei gwaith. Mae'n nodi ac yn dathlu amrywiaeth yn llwyddiannus. Caiff pob disgybl yr un cyfleoedd i elwa ar y cwricwlwm a chymryd rhan yn y gweithgareddau allgyrsiol yn yr ysgol.

Mae'r safle'n ddiogel a saff. Mae'r ysgol yn rheoli'r heriau a grëwyd yn sgil adeiladu ysgol newydd yn agos at y safle presennol yn dda.

Mae'r adeiladau'n ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion ac mae eu hansawdd yn briodol ar y cyfan. Yn gyffredinol, mae'r ysgol yn gwneud y defnydd gorau o'r amgylchedd ffisegol sydd ar gael iddi. Fodd bynnag, tan yn ddiweddar, roedd toiledau disgyblion mewn cyflwr annerbyniol, er bod yr ysgol wedi gwneud gwelliannau addas i'r toiledau.

Mae adnoddau dysgu, gan gynnwys technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, yn gweddu'n addas i anghenion disgyblion. Mae mwyafrif yr arddangosfeydd mewn coridorau ac ystafelloedd dosbarth yn cefnogi dysgu'n briodol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer gwella addysgu a safonau yn yr ysgol. Mae mwyafrif y staff yn rhannu'r weledigaeth hon, ac mae diwylliant datblygol o ddisgwyliadau uchel ac atebolrwydd ar draws yr ysgol. Mae effaith y newidiadau hyn yn amlwg mewn gwelliannau yng nghysondeb y marcio a phresenoldeb gwell. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi ysgogi digon o welliant yn neilliannau disgyblion. Yn ychwanegol, nid yw arweinyddiaeth wedi cael digon o effaith ar ansawdd yr addysgu nac ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion mewn gwersi.

Mae gan uwch arweinwyr rolau a chyfrifoldebau diffiniedig clir. Mae mwyafrif o'r arweinwyr hyn yn cyflawni eu rolau'n briodol. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif ohonynt yn arwain eu timau'n ddigon da am fod ganddynt ormod o gyfrifoldebau neu nid oes ganddynt yr arbenigedd a'r profiad angenrheidiol. Yn gyffredinol, nid yw dealltwriaeth arweinwyr o sut i ddefnyddio data perfformiad i osod targedau a monitro perfformiad wedi'i datblygu'n ddigonol.

Mae cyfarfodydd rheolwyr llinell yn canolbwyntio'n briodol ar faterion pwysig fel addysgu, ymddygiad a safonau. Mae cofnodion y cyfarfodydd hyn yn creu pwyntiau gweithredu penodol yr eir i'r afael â nhw mewn modd amserol. Mae mwyafrif y cofnodion o gyfarfodydd arweinwyr canol yn cynnwys ffocws addas ar safonau ac addysgu. Fodd bynnag, mae lleiafrif ohonynt yn cynnwys ychydig o gyfeiriadau yn unig at y materion pwysig hyn, ac maent yn rhoi gormod o sylw i faterion clercyddol neu weinyddol. Ychydig o'r cyfarfodydd hyn yn unig sy'n cynhyrchu pwyntiau gweithredu neu'n mynd i'r afael â blaenoriaethau o gyfarfodydd blaenorol. Mae arweinwyr canol yn datblygu eu dealltwriaeth o sut i ddefnyddio data i arfarnu perfformiad ac olrhain cynnydd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o'r arweinwyr hyn wedi bod yn llwyddiannus o ran nodi tanberfformio mewn addysgu a rhoi strategaethau ar waith i ysgogi gwelliannau.

Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad priodol sy'n darparu fformat addas ar gyfer adolygu gwaith athrawon a nodi anghenion hyfforddi unigol. Fodd bynnag, ni chaiff y system hon ei chymhwyso'n gyson ac nid yw arweinwyr bob amser yn darparu'r cymorth angenrheidiol lle nodir tanberfformio. Mae amcanion rheoli perfformiad yn briodol ac yn cyd-fynd â blaenoriaethau ysgol gyfan.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol iawn o'r ysgol, ac yn datblygu dealltwriaeth o arwyddocâd data perfformiad. Maent yn dechrau defnyddio'r ddealltwriaeth hon i herio'r ysgol i wella. Fodd bynnag, nid ydynt wedi herio'r ysgol mewn rhai meysydd pwysig. Mae gan lywodraethwyr rôl addas o ran gwirio adroddiad hunanarfarnu a chynllun datblygu'r ysgol.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Mae'r ysgol wedi mireinio'i phrosesau hunanarfarnu, cynllunio gwelliant a sicrhau ansawdd yn ddiweddar. Mae'r rhain yn digwydd mewn cylch rheolaidd amserlenedig erbyn hyn. Caiff y rhan fwyaf o ddisgyblion gyfleoedd perthnasol i fynegi eu

safbwyntiau, yn yr un modd â staff a rhieni.  Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn rhoi disgrifiad addas o lawer o agweddau ar waith yr ysgol.  Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad hwn yn dadansoddi'r amrediad llawn o ddata sydd ar gael i'r ysgol yn ddigonol, er enghraifft cymariaethau ag ysgolion eraill.

Mae gan uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ddealltwriaeth ddatblygol o'u rolau mewn hunanarfarnu.  Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr canol yn darparu sylwadau sylfaenol boddhaol ar ddata perfformiad yn eu maes pwnc.  Fodd bynnag, nid yw prosesau'r ysgol ar gyfer arfarnu gwaith disgyblion a chynnal arsylwadau gwersi yn ddigon trylwyr.  Wrth ymgymryd â'r gweithgareddau hyn, nid yw arweinwyr yn canolbwyntio'n ddigon da ar ddeilliannau disgyblion.  Hefyd, nid yw uwch reolwyr yn sicrhau ansawdd y prosesau hyn yn drylwyr nac yn dadansoddi'r canfyddiadau yn ddigonol.  O ganlyniad, mae eu barnau am addysgu ac asesu yn rhy hael ac nid ydynt yn nodi meysydd i'w gwella yn ddigon manwl gywir.

Mae'r ysgol wedi datblygu dull newydd o gynllunio gwelliant yn ddiweddar.  Mae hyn wedi arwain at gynllun ysgol gyfan cryno gyda chynlluniau cyfadran integredig y gall arweinwyr, athrawon a llywodraethwyr eu defnyddio'n hawdd.  Mae'r cynllun yn nodi blaenoriaethau sy'n gyffredinol briodol ac mae'n cynnwys ffocws addas ar wella cyflawniad disgyblion sy'n agored i niwed.  Mae'n cynnwys llawer o gamau gweithredu perthnasol, â chostau ynghlwm, ynghyd â phwyntiau monitro addas.  Mae hyn yn rhoi dealltwriaeth glir i staff o flaenoriaethau'r ysgol.  Mae cynlluniau cyfadrannau yn adlewyrchu'r blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol yn ddefnyddiol.  Fodd bynnag, ni roddir blaenoriaeth ddigon uchel yng nghynlluniau'r ysgol  i wella'r addysgu.  Yn gyffredinol, nid yw'r targedau a'r meini prawf llwyddiant yn ddigon uchelgeisiol.

Mae arweinwyr wedi sicrhau rhywfaint o welliant ym mhresenoldeb disgyblion ac mewn mwyafrif o ddangosyddion perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 yn ddiweddar.  Fodd bynnag, nid yw cynllunio gwelliant wedi cael effaith ddigonol ar ddeilliannau disgyblion o gymharu ag ysgolion tebyg.  Gwnaed cynnydd cyfyngedig wrth fynd i'r afael â mwyafrif yr argymhellion o'r arolygiad diwethaf.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Digonol**

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r ysgol wedi meithrin perthnasoedd cynhyrchiol gyda llawer o bartneriaid yn y gymuned leol.  Mae wedi sefydlu cysylltiadau buddiol â busnesau lleol.  Mae gweithgareddau sy'n deillio o'r cysylltiadau hyn, er enghraifft cyfweliadau ffug a thaith gyfnewid gefeillio Treffynnon i Ffrainc, yn galluogi disgyblion i ennill medrau a phrofiadau gwerthfawr.

Mae'r ysgol yn cysylltu ag amrywiaeth briodol o asiantaethau allanol i gefnogi lles disgyblion.  Fodd bynnag, nid yw hyn wedi cael effaith ddigonol eto ar ddeilliannau disgyblion sy'n agored i niwed.  Mae'r ysgol wedi datblygu ei chyfathrebu a'i pherthnasoedd â rhieni yn dda.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos â'i hysgolion cynradd partner i helpu disgyblion i ymgynefino'n gyflym ym Mlwyddyn 7 a chynllunio'n briodol ar gyfer dilyniant yn eu dysgu wrth iddynt symud o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3.  Caiff disgyblion mwy abl gyfleoedd i ymweld â phrifysgolion lleol, ac maent yn cymryd rhan mewn digwyddiadau fel trafod a dadlau sy'n helpu i godi eu dyheadau.

Mae’r ysgol yn cydweithio’n briodol â darparwyr eraill i ddarparu cyrsiau ychwanegol ar gyfer rhai disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y sector ôl-16. Mae ganddi weithdrefnau addas ar waith i sicrhau ansawdd y cyrsiau a gyflwynir mewn partneriaeth â darparwyr eraill.

**Rheoli adnoddau: Anfoddhaol**

Mae staff yr ysgol yn cynnwys athrawon sy’n meddu ar gymwysterau priodol, y mae’r rhan fwyaf ohonynt yn addysgu o fewn eu maes arbenigedd. Mae gan yr ysgol gynlluniau addas i gefnogi’r nifer fach iawn o staff sy’n addysgu y tu allan i’w maes arbenigedd. Fodd bynnag, oherwydd lefelau uchel o absenoldeb staff yn nhymor yr hydref 2015, nid yw’r cynlluniau hyn wedi cael eu rhoi ar waith. O ganlyniad, nid oes gan yr athrawon hyn amgyffrediad cadarn bob amser o strategaethau penodol sydd eu hangen i addysgu y tu allan i’w prif bwnc.

Mae gan yr ysgol raglen addas o hyfforddiant mewn swydd. Fodd bynnag, nid oes ganddi unrhyw weithgorau i archwilio a datblygu strategaethau ar gyfer blaenoriaethau penodol, fel gwella ansawdd yr addysgu.

Mae rheolwr busnes yr ysgol a’r pennaeth yn monitro gwariant yn fanwl. Fodd bynnag, mae diffyg sylweddol yng nghyllideb yr ysgol ar hyn o bryd, ac mae’n cydweithio’n agos â’r awdurdod lleol i’w leihau.

Mae llawer o’r strategaethau a gynlluniwyd ar gyfer defnyddio’r Grant Amddifadedd Disgyblion yn addas. Fodd bynnag, nid yw rhai o’r strategaethau hyn yn canolbwyntio’n ddigon clir ar wella cyrhaeddiad na lles disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Yng ngoleuni’r safonau gwael a gyflawnir gan ddisgyblion, mae’r ysgol yn cynnig gwerth anfoddhaol am arian.

# Atodiad 1

**6644012 - Ysgol Uwchradd Treffynnon**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 427 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 25.7 | |
| Grŵp PYD | 4 | (20%<PYD<=30%) |

**Cyfnod allweddol 3**

| | Ysgol | | | | Cyfartaledd y teulu (2015) | Cyfartaledd Cymru (2015) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | | |
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 9** | 108 | 91 | 75 | 62 | | |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 55.6 | 69.2 | 74.7 | 90.3 | 80.3 | 83.9 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 1 | | |
| **Saesneg** | | | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 108 | 91 | 75 | 62 | | |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 67.6 | 73.6 | 78.7 | 91.9 | 84.8 | 87.9 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 1 | | |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 16.7 | 16.5 | 46.7 | 35.5 | 43.9 | 52.6 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 | 4 | | |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | . | . | . | . | | |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | . | . | . | . | . | 90.9 |
| Chwartel meincnod | . | . | . | . | | |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | . | . | . | . | . | 56.1 |
| Chwartel meincnod | . | . | . | . | | |
| **Mathemateg** | | | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 108 | 91 | 75 | 62 | | |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 81.5 | 84.6 | 85.3 | 95.2 | 86.2 | 88.7 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 1 | | |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 30.6 | 50.5 | 50.7 | 71.0 | 53.2 | 59.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 2 | 1 | | |
| **Gwyddoniaeth** | | | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 108 | 91 | 75 | 62 | | |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 89.8 | 93.4 | 93.3 | 96.8 | 89.5 | 91.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 | | |
| Yn cyflawni lefel 6+ (%) | 29.6 | 36.3 | 54.7 | 54.8 | 48.7 | 58.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 1 | 2 | | |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 5 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.
. yn dynodi nad yw'r eitem ddata yn ddilys.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Caiff y meincnodau ar gyfer y Gymraeg eu cyfrifo gan ddefnyddio pob ysgol lle mae disgyblion yn dilyn cymwysterau Cymraeg mamiaith, ac maent yn seiliedig ar nifer yr ymgeiswyr. Nid ydynt yn cynnwys cymwysterau Cymraeg ail iaith.

**6644012 - Ysgol Uwchradd Treffynnon**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 427 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 25.7 |
| Grŵp PYD | 4 (20%<PYD<=30%) |

**Cyfnod allweddol 4**

| | Ysgol | | | | Cyfartaledd y teulu (2015) | Cyfartaledd Cymru (2015) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | | |
| **Nifer y disgyblion 15 oed** | 124 | 116 | 94 | 85 | | |
| **Canran y disgyblion 15 oed sydd:** | | | | | | |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 2 yn cynnwys TGAU gradd A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg** | 40.3 | 40.5 | 43.6 | 37.6 | 51.1 | 57.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 4 | | |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 2** | 44.4 | 56.0 | 63.8 | 68.2 | 78.9 | 84.1 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 4 | | |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 1** | 96.8 | 97.4 | 100.0 | 100.0 | 95.8 | 94.4 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 | | |
| **Wedi cyflawni'r dangosydd pwnc craidd (DPC)** | 40.3 | 31.9 | 37.2 | 37.6 | 46.7 | 54.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 4 | 4 | | |
| **Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio fesul disgybl** | 284.9 | 298.5 | 329.8 | 324.4 | 333.1 | 343.5 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 4 | | |
| **Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio a mwy fesul disgybl** | 284.3 | 298.0 | 327.4 | 320.4 | 327.9 | 338.7 |
| Chwartel meincnod | . | . | . | . | | |
| **Cyflawnwyd pump neu fwy o raddau TGAU A* -A** | 9.7 | 7.8 | 7.4 | 3.5 | 10.2 | 16.6 |
| Chwartel meincnod | . | . | . | . | | |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn Saesneg** | 49.2 | 56.0 | 62.8 | 49.4 | 61.7 | 68.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 | 4 | | |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn mathemateg** | 48.4 | 50.9 | 51.1 | 52.9 | 58.7 | 64.4 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 4 | 4 | | |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn gwyddoniaeth** | 46.8 | 39.7 | 87.2 | 97.6 | 83.5 | 84.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 2 | 1 | | |
| **Nifer y disgyblion 15 oed a gofrestrodd ar gyfer Cymraeg iaith gyntaf:** | . | . | . | . | | |
| **O'r rheini â geisiodd Cymraeg iaith gyntaf:** | | | | | | |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn Cymraeg iaith gyntaf** | . | . | . | . | . | 75.2 |
| Chwartel meincnod | . | . | . | . | | |

Mae'n cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd ar gyfer defnydd cyn-16 yng Nghymru.

Mae'n cynnwys canlyniadau ar gyfer disgyblion 15 oed, mewn ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol, a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn academaidd ac unrhyw arholiadau a gymerwyd ar oed cynharach. Oedrannau ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 2 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

Caiff y sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio ei chyfrifo gan ddefnyddio'r 8 canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd ar gyfer defnydd cyn-16 yng Nghymru ar gyfer pob disgybl.

Yn achos disgyblion sy'n cofrestru ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf, defnyddir y radd orau ar gyfer Cymraeg iaith a llenyddiaeth. Enwadur y dangosydd yma yw'r disgyblion 15 oed a geisiodd arholiad Cymraeg Iaith Gyntaf, yn hytrach na chyfanswm yr holl ddisgyblion 15 oed.

. yn dynodi nad yw'r eitem ddata yn ddilys.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Caiff y meincnodau ar gyfer y Gymraeg eu cyfrifo gan ddefnyddio pob ysgol lle mae disgyblion yn dilyn cymwysterau Cymraeg mamiaith, ac maent yn seiliedig ar nifer yr ymgeiswyr. Nid ydynt yn cynnwys cymwysterau Cymraeg ail iaith.

**6644012 - Ysgol Uwchradd Treffynnon**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 427 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 25.7 |
| Grŵp PYD | 4 (20%<PYD<=30%) |

**Cyfnod allweddol 4 - perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim**

| | Ysgol | | | | Cyfartaledd y teulu (2015) | Cyfartaledd Cymru (2015) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | | |
| **Nifer y disgyblion 15 oed sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim** | 29 | 23 | 18 | 18 | | |
| **Canran y disgyblion 15 oed sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sydd:** | | | | | | |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 2 yn cynnwys TGAU gradd A*-C mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg** | 13.8 | 26.1 | 33.3 | 16.7 | 28.4 | 31.6 |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 2** | 17.2 | 30.4 | 50.0 | 50.0 | 64.3 | 69.4 |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 1** | 89.7 | 91.3 | 100.0 | 100.0 | 90.8 | 89.4 |
| **Wedi cyflawni'r dangosydd pwnc craidd (DPC)** | 13.8 | 21.7 | 33.3 | 16.7 | 26.4 | 29.3 |
| **Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio fesul disgybl** | 221.8 | 247.6 | 297.5 | 306.2 | 299.0 | 303.7 |
| **Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio a mwy fesul disgybl** | 221.1 | 247.2 | 296.5 | 303.1 | 291.6 | 296.4 |
| **Cyflawnwyd pump neu fwy o raddau TGAU A* -A** | 3.4 | 0.0 | 5.6 | 0.0 | 4.7 | 4.3 |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn Saesneg** | 20.7 | 43.5 | 44.4 | 22.2 | 40.4 | 45.1 |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn mathemateg** | 17.2 | 30.4 | 38.9 | 55.6 | 37.4 | 39.2 |
| **Wedi cyflawni A*-C mewn gwyddoniaeth** | 17.2 | 26.1 | 77.8 | 94.4 | 74.3 | 74.4 |
| **Nifer y disgyblion 15 oed a gofrestrodd ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf:** | . | . | . | . | | |
| **O'r rheini â geisiodd Cymraeg iaith gyntaf:**<br>**Wedi cyflawni A*-C mewn Cymraeg iaith gyntaf** | . | . | . | . | . | 51.5 |

Mae'n cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd ar gyfer defnydd cyn-16 yng Nghymru.

Mae'n cynnwys canlyniadau ar gyfer disgyblion 15 oed, mewn ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol, a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn academaidd ac unrhyw arholiadau a gymerwyd ar oed cynharach. Oedrannau ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 2 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

Caiff y sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi'i chapio ei chyfrifo gan ddefnyddio'r 8 canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd ar gyfer defnydd cyn-16 yng Nghymru ar gyfer pob disgybl.

Yn achos disgyblion sy'n cofrestru ar gyfer Cymraeg Iaith Gyntaf, defnyddir y radd orau ar gyfer Cymraeg iaith a llenyddiaeth. Enwadur y dangosydd yma yw'r disgyblion 15 oed a geisiodd arholiad Cymraeg Iaith Gyntaf, yn hytrach na chyfanswm yr holl ddisgyblion 15 oed.

. yn dynodi nad yw'r eitem ddata yn ddilys.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

**6644012 - Ysgol Uwchradd Treffynnon**

Nifer y disgyblion ar y gofrestr yn y chweched dosbarth 59

**Cyfnod allweddol 5**

| | Ysgol | | | | Cyfartaledd y teulu (2015) | Cyfartaledd Cymru (2015) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | | |
| **Nifer y disgyblion 17 oed** | 32 | 30 | 33 | 28 | | |
| **Sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog fesul disgybl** | 497.7 | 497.3 | 593.1 | 489.3 | 732.1 | 799.7 |
| **Nifer y disgyblion 17 oed sy'n sefyll cymwysterau cyfwerth â 2 Safon Uwch:** | 19 | 23 | 24 | 22 | | |
| **O'r rheiny a gofnododd swm sydd gyfwerth â 2 gymhwyster Safon Uwch:** | | | | | | |
| **Wedi cyflawni trothwy lefel 3** | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 94.2 | 97.0 |
| **Wedi cyflawni 3 A*-A mewn arholiadau Safon Uwch neu gyfwerth** | 10.5 | 8.7 | 4.2 | 4.5 | 2.3 | 7.9 |
| **Wedi cyflawni 3 A*-C mewn arholiadau Safon Uwch neu gyfwerth** | 52.6 | 26.1 | 54.2 | 9.1 | 54.5 | 68.1 |

Yn cynnwys pob cymhwyster cydnabyddedig yng Nghymru.

Mae'n cynnwys canlyniadau ar gyfer disgyblion 17 oed, mewn ysgolion a gynhelir, a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn academaidd ac unrhyw arholiadau a gymerwyd ar oed cynharach. Oedrannau ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

Mae'r sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog ar gyfer disgyblion 17 oed yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd ar gyfer defnydd cyn-18 yng Nghymru.

Mae trothwy lefel 3 wedi'i seilio ar nifer y disgyblion 17 oed sy'n sefyll cymwysterau cyfwerth â 2 Safon Uwch.

. yn dynodi nad yw'r eitem ddata yn ddilys.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, trwy'r ddolen gyswllt isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?lang=eng

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school | 103 | 39 | 58 | 4 | 2 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 38% | 56% | 4% | 2% | |
| | | 44% | 52% | 4% | 1% | |
| The school deals well with any bullying | 103 | 22 | 65 | 14 | 2 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 21% | 63% | 14% | 2% | |
| | | 26% | 57% | 14% | 3% | |
| I have someone to talk to if I am worried | 103 | 40 | 50 | 12 | 1 | Mae gen i rywun i siarad ag ef/â hi os ydw i'n poeni. |
| | | 39% | 49% | 12% | 1% | |
| | | 38% | 52% | 8% | 1% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 102 | 23 | 61 | 13 | 5 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 23% | 60% | 13% | 5% | |
| | | 23% | 56% | 18% | 3% | |
| There are plenty of opportunities at school for me to get regular exercise | 102 | 40 | 50 | 11 | 1 | Mae digonedd o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 39% | 49% | 11% | 1% | |
| | | 45% | 45% | 9% | 2% | |
| I am doing well at school | 102 | 32 | 63 | 6 | 1 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 31% | 62% | 6% | 1% | |
| | | 32% | 62% | 5% | 1% | |
| The teachers help me to learn and make progress and they help me when I have problems | 101 | 38 | 51 | 11 | 1 | Mae'r athrawon yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd ac maent yn fy helpu pan fydd gen i broblemau. |
| | | 38% | 50% | 11% | 1% | |
| | | 38% | 55% | 6% | 1% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school | 103 | 24 | 55 | 14 | 10 | Mae fy ngwaith cartref yn fy helpu i ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 23% | 53% | 14% | 10% | |
| | | 20% | 54% | 21% | 5% | |
| I have enough books and equipment, including computers, to do my work | 101 | 37 | 57 | 7 | 0 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 37% | 56% | 7% | 0% | |
| | | 45% | 47% | 7% | 1% | |
| Pupils behave well and I can get my work done | 103 | 15 | 55 | 25 | 8 | Mae disgyblion eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 15% | 53% | 24% | 8% | |
| | | 10% | 56% | 27% | 6% | |
| Staff treat all pupils fairly and with respect | 103 | 30 | 54 | 15 | 4 | Mae staff yn trin pob disgybl yn deg ac yn dangos parch atynt. |
| | | 29% | 52% | 15% | 4% | |
| | | 29% | 50% | 17% | 5% | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| The school listens to our views and makes changes we suggest | 102 | 21<br>21% | 53<br>52% | 25<br>25% | 3<br>3% | Mae'r ysgol yn gwrando ar ein barn ac yn gwneud newidiadau rydym ni'n eu hawgrymu. |
| | | 16% | 53% | 25% | 5% | |
| I am encouraged to do things for myself and to take on responsibility | 101 | 29<br>29% | 66<br>65% | 4<br>4% | 2<br>2% | Rwy'n cael fy annog i wneud pethau drosof fy hun a chymryd cyfrifoldeb. |
| | | 34% | 60% | 5% | 1% | |
| The school helps me to be ready for my next school, college or to start my working life | 102 | 34<br>33% | 52<br>51% | 14<br>14% | 2<br>2% | Mae'r ysgol yn helpu i mi fod yn barod ar gyfer fy ysgol nesaf, y coleg neu i ddechrau fy mywyd gwaith. |
| | | 36% | 54% | 9% | 1% | |
| The staff respect me and my background | 103 | 33<br>32% | 60<br>58% | 9<br>9% | 1<br>1% | Mae'r staff yn fy mharchu i a'm cefndir. |
| | | 37% | 53% | 7% | 2% | |
| The school helps me to understand and respect people from other backgrounds | 100 | 28<br>28% | 63<br>63% | 8<br>8% | 1<br>1% | Mae'r ysgol yn helpu i mi ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill. |
| | | 36% | 56% | 7% | 1% | |
| Please answer this question if you are in Year 10 or Year 11: I was given good advice when choosing my courses in key stage 4 | 50 | 15<br>30% | 26<br>52% | 5<br>10% | 4<br>8% | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych ym Mlwyddyn 10 neu Flwyddyn 11: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yng nghyfnod allweddol 4. |
| | | 28% | 51% | 16% | 5% | |
| Please answer this question if you are in the sixth form: I was given good advice when choosing my courses in the sixth form | 22 | 9<br>41% | 8<br>36% | 3<br>14% | 2<br>9% | Atebwch y cwestiwn hwn os ydych chi yn y chweched dosbarth: Cefais gyngor da wrth ddewis fy nghyrsiau yn y chweched dosbarth. |
| | | 27% | 50% | 16% | 7% | |

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

Cafwyd llai na 10 o ymatebion.  Ni ddangosir unrhyw ddata.

# Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Steven William Pringle | Arolygydd Cofnodol |
| Ceri Jones | Arolygydd Tîm |
| Mamta Arnott | Arolygydd Tîm |
| Karen Newby Jones | Arolygydd Tîm |
| Justine Elaine Barlow | Arolygydd Lleyg |
| Andrea May | Arolygydd Cymheiriaid |
| Ian Evans | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau

**Termau cyfnod allweddol 3**

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 3 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 7 yn bennaf).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 3 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg [1]
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 3, yn bedair ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 5 a disgwylir i'r disgyblion mwy abl gyrraedd lefel 6 neu uwch.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 5) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Termau cyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth**

| | |
|---|---|
| Dangosydd pwnc craidd (DPC) | Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. |
| Teuluoedd o ysgolion | Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad nhw â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru.  Mae teuluoedd yn cynnwys naw ysgol arall y mae cyfrannau tebyg o ddisgyblion: yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw mewn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg fel iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys. |
| Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â chymhwyster TGAU gradd D i G. |
| Trothwy Lefel 1 | Mae hyn yn gyfwerth â phum cymhwyster TGAU graddau D i G. |
| Lefel 2 | Mae hyn yn gyfwerth â chymhwyster TGAU gradd A* i C. |

[1] Nid yw'r dangosydd hwn yn cynnwys cymwysterau Cymraeg ail iaith.

| | |
|---|---|
| Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg[1] neu Saesneg a mathemateg | Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phum cymhwyster TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg. |
| Trothwy Lefel 2 | Mae hyn yn golygu pum cymhwyster TGAU graddau A* i C neu gyfwerth. |
| Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â chymhwyster Safon Uwch gradd A*-E. |
| Trothwy Lefel 3 | Mae hyn yn gyfwerth â dau gymhwyster Safon Uwch gradd A* i E. |
| Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach | Mae hyn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. |
| Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i chapio | Mae hyn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed. |
| Grwpiau meincnodi | Caiff ysgolion eu rhoi mewn grwpiau gyda'i gilydd yn unol â chyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim er mwyn cymharu eu perfformiad nhw â pherfformiad ysgolion tebyg mewn dangosyddion gwahanol. |
| Deilliannau wedi'u modelu | Rhagfynegiad o berfformiad cymedrig ysgol yw hyn, yn seiliedig ar y berthynas ystadegol rhwng cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a dangosydd penodol. |